

Prosiect

Epynt

Project

Adnodd digidol i gynorthwyo Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol (MDPh), Cwricwlwm i Gymru.



Llun / Photo: Full Mongrel & Co

Impelo



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Gwnaed yn bosibl gan

Cronfa
Treftadaeth

Made possible with

Heritage
Fund



CYNNWYS

Rhagair.....	2
Dull Gweithredu Impelo.....	2

Egwyddorion Canllaw

- Dawnsio fel offeryn dysgu traws-gwricwlaidd i hyrwyddo profiadau dysgu dwfn yn y cwricwlwm.....3
- Sut i fod yn hwylusydd gwych.....4
- Arferion Creadigol y Meddwl – Cyngor Celfyddydau Cymru.....5

Cyflwyniad i Brosiect Epynt.....	7
----------------------------------	---

Cwrdd â'r Artistiaid.....	8
---------------------------	---

Syniadau Gweithdy.....	13
------------------------	----

- 1) Syniadau Gweithdy Symudiad.....14
- 2) Syniadau Gweithdy Costiwm.....21
- 3) Syniadau Gweithdy Drama.....28
- 4) Syniadau Gweithdy Cerddoriaeth.....33
- 5) Syniadau Gweithdy Digidol.....39

ATODIAD 1 - Adnoddau a gwybodaeth ychwanegol.....	47
--	----

Diolchiadau	48
--------------------------	----

ATODIAD 2

- Delweddau Archifol Amgueddfa Cymru.....49
- Cerdd gan Cêt Haf.....53

Prosiect

Epynt
Project

Impelo

RHAGAIR

Mae'r adnodd yma wedi cael ei ddylunio a'i greu i gael ei ddefnyddio yn bennaf ar draws camau 3 - 5 y cwricwlwm.

Mae'n defnyddio hanes a threftadaeth Cymru fel ysgogiad creadigol ar gyfer syniadau gweithdy dawns, drama, gwisgoedd, cerddoriaeth a digidol.

Nod craidd ei fodolaeth yw hyrwyddo eich taith at well ddealltwriaeth o'r celfyddydau creadigol ac o ba mor rymus ydyw fel offeryn i hybu dysgu creadigol. Rydym yn ymdrechu yn Impelo i gysylltu unigolion a sefydliadau a'u hysbrydoli trwy gyfrwng llawenydd dawnsio – gan hyrwyddo chwilfrydedd, uchelgais a dysg gydol oes. Rydym yn trysori dawnsio fel celfyddyd draws-gwricwlaidd amlochrog unigryw sy'n datgloi creadigrwydd yr unigolyn trwy gyfrwng y celfyddydau ac felly mae gan bob adran gweithdy ymagwedd symudiad creadigol cryf.

DULL GWEITHREDU Impelo

Mae'r Cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddysgu pwrpasol trwy brofiad a chyfranogi'n egniol. Mae'n hyrwyddo archwilio, datblygu ac archwilio creadigrwydd a datrys problemau fel ysgogwyr dysgu i blant. Mae ein methodoleg ni'n cwmpasu dysgu ymgorfforedig trwy archwilio chwilfrydig a chyfleoedd creadigol. Mae'r dull trawsgwricwlaidd a archwilir yn yr adnodd hwn yn cefnogi ac yn ategu cydweithrediadau â ffurfiau celfyddydol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad 'Celfyddydau Mynegiannol'.

Tra bod ymchwilio a meddwl yn elfennau craidd o'r broses o gynllunio ein prosiectau, rydym yn ymlafnio sicrhau hefyd bob amser y bydd profiad y dysgwr yn hwyl ac yn gwella bywyd, ac mae'r 'ffactor hwyl' yn rhan anhepgor o'n dull gweithredu ni, o'r miwsig i'r egni, y sgysiau a'r symudiadau – **hwyl sydd ar ben y rhestr amcanion bob amser!**

Impelo

Sefydliad elusenol yw Impelo, sy'n ymdrechu i gydrannu grym trawsnewidiol dawnsio mor eang a mor bell â phosibl, gan gysylltu pobl o bob oedran ac o bob lliw a llun mewn hunan-fynegiant llawen. Pawb yn dawnsio – er eu lles eu hunain ac er lles ei gilydd, dros fywyd gwell.

Dyfeisiwyd Adnoddau Dysgu Prosiect Epynt yn unol â Chwricwlwm Cymru. Mae nhw'n manteisio ar adnoddau defnyddiol offer Arferion Creadigol y Meddwl sy'n rhan o adnodd Dysgu Creadigol Cyngor Celfyddydau Cymru*. Mae Impelo wedi cydweithredu hefyd âg artistiaid lawrydd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod safon yr adnoddau hyn yn adlewyrchu'r arferion dawnsio gorau, yn ddilys ac yn cynrychioli'r gwaith sy'n digwydd yng Nghymru heddiw.

* Mae'r diffiniad hwn o greadigrwydd – Arferion Creadigol y Meddwl – yn deillio o waith Guy Claxton, Bill Lucas ac Ellen Spencer o'r Centre for Real World Learning ym Mhrifysgol Caer-wynt (2013): 'Progression in Student Creativity in School: First steps towards new forms of formative assessment' [OECD Education Working Papers No 86. Paris: OECD Publishing] ac yn cael ei ddefnyddio gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer prosiectau dysgu creadigol gydag ysgolion.

Prosiect
Epynt
Project

EGWYDDORION CANLLAW

Dawnsio fel offeryn dysgu traws-gwricwlaidd ar gyfer profiadau dysgu dwfn yn y cwricwlwm.

Yn ogystal â bod yn gelfyddyd anhygoel sy'n llawn cyfoeth o newidion, mae dawnio hefyd yn ffordd 'allan o'r blwch' o ddod â llu o feysydd pwnc eraill yn fyw gyda golwg ar ysgogi'r synhwyrau i gyd er mwyn hybu dynesiad tra integredig at ddysgu.

Creu addysg a sgiliau cyfunol, gan dynnu ar adnoddau'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg. (Datganiad ar y Celfyddydau Mynegiannol, Yr Hyn Sy'n Bwysig, Cwricwlwm i Gymru.)

Mae dysgu traws-gwricwlaidd yn gadael i fwy o gysylltiadau gael eu gwneud ar draws yr AOLEs (Meysydd Dysgu a Phrofiad). Mae sgiliau'n dod yn fwy trosglwyddadwy, gan adael i ddysgwyr addasu'n rhwyddach i'r sefyllfaoedd y maent yn eu cael eu hunain ynddynt, gan fagu gwydnwch a hunanhyder.

Buddion defnyddio dawnio creadigol fel offeryn dysgu traws-gwricwlaidd:

- Mae'r plant yn **ymgorffori**'r broses ddysgu ac yn eu tro yn ei phrofi
- Daw dysgu'n **gysylltiedig** ac yn **drosglwyddadwy**
- Mae'n **greadigol**, yn **gorfforol** ac yn mynnu bod y dysgwyr yn **bresennol**
- Mae'n cyfrannu at iechyd corfforol yn **gyffredinol**

Dychmygwch eich bod yn dysgu gêm bwrdd am y tro cyntaf, a bod rhywun yn egluro'r rheolau ichi. Dim ond pan ddechreuwn ni weld y gêm neu'n ei chwarae am y tro cyntaf y down ni i ddeall holl fanylion cymhleth y gêm. Ac mae'r un peth yn wir am rai dysgwyr: nes iddynt ddechrau byw ac ymgorffori'r profiad, byddan nhw'n ei chael hi'n anodd i ddeall y cysyniad sylfaenol – a gall symud helpu i hyrwyddo'r broses yma!

Yn ogystal â datgloi pynciau a dod â themâu'n fyw felly, bydd dysgwyr yn cael eu darparu ag offer symud defnyddiol a fydd yn hybu eu llesiant, eu gwydnwch a'u hiechyd corfforol.

Gweler esiampl ddefnyddiol isod:

MAGNEDAU

Gêm – Cerfluniau Cerddorol gyda Maged

Ewch o gwmpas yn ochelgar bennu hanner eich dysgwyr yn 'ogledd' a hanner yn 'dde'. Gofynnwch iddynt symud o gwmpas yr ystafell gyda'r miwsig. Pan fydd y miwsig yn dod i ben, rhaid iddynt fynd at y person agosaf, datgelu eu statws: 'gogledd' neu 'de', ac ymateb wedyn fel petaen nhw'n fagnedau – os ydyn nhw'n wahanol i'w gilydd (gogledd a de), byddant yn cael hyd i ffordd o lynu ynghyd; os ydyn nhw'r un peth, rhaid iddynt ddarganfod ffordd o wrthyrru ei gilydd. Chwaraewch hyn sawl tro, gyda miwsig.

EGWYDDORION CANLLAW

Sut i fod yn hwylusydd gwych:

Dilyswch -

Cofiwch ddilysu unrhyw syniad creadigol a gynigir gan eich dysgwyr: hyd yn oed os bydd eu syniad yn swnio'n dwp, chwiliwch am elfen gadarnhaol, ddefnyddiol ynddo, gan ofalu cydnabod eu creadigrwydd. Rhowch amser iddynt rannu eu syniadau; peidiwch brysio i gynnig syniadau iddynt os ydyn nhw wedi drysu.

Hyder corfforol -

Defnyddir y term hwn i ddisgrifio sut rydyn ni'n sicrhau bod ein holl sesiynau a ffyrdd o gyflwyno symudiadau'n rhoi profiad corfforol cadarnhaol i blant, profiad lle nad yw'n gwestiwn o lwyddo neu fethu. Peidiwch anelu felly at sicrhau bod pawb yn neidio yn union yr un ffordd; chwiliwch am y rhai sy'n ei wneud yn wahanol a dathlwch y ffaith, gan adael iddyn nhw deimlo'n dda ynghylch eu cyrff wrth symud.

Archwiliwch -

Peidiwch gwneud pethau drostyn nhw, gwnewch bethau gyda nhw yn lle! Symudwch ar y cyd â nhw, byddwch yn wirion a chwaraewch fili-ffwl gyda nhw, rhowch gynnig ar wahanol syniadau gyda nhw, methwch gyda nhw, darganfyddwch lawenydd mewn miwsig gyda nhw, crëwch gyda nhw. Gall dynesiad ymchwiliol, chwilfrydig at symud creadigol greu amgylchiadau dysgu cadarnhaol i chi ac i'ch dysgwyr!

Meithrinwch -

Chwiliwch am hadau bychain twf creadigol. I rai fe fydd y daith yn un araf, raddol a chywrain; gall bod yn greadigol o flaen eich cyfoedion wneud i lawer o bobl ifanc deimlo'n fregus iawn, beth bynnag fo eu hoedran. Gofalwch feithrin a hybu'r camau bach ymlaen a welwch chi o wythnos i wythnos. Mae gosod tasgau creadigol lle gallwch chi grwydro o gwmpas i fesur ymateb y dysgwyr yn ffordd wych o gadw golwg ar eu datblygiad.

Ymwybyddiaeth -

Mae ymwybyddiaeth o'ch corff a hunan-ymwybyddiaeth yn elfen graidd yn y broses o feithrin corff sy'n symud yn hyderus ac yn greadigol. Mae bod yn 'bresennol' yn eich corff yn cyfrannu at greu gwell ddealltwriaeth o'r ffordd y mae'r corff yn symud ac o'i le yn y byd. Mae ymdeimlad cryf o'n lleoliad ni'n gadael i'n cyrff fod yn barotach i dderbyn syniadau newydd wrth symud a theimlo'n fwy hyderus wrth roi cynnig ar bethau newydd. Mae ymgorffori elfennau o'n methodoleg symud creadigol ni'n gallu cynorthwyo'r dysgwyr yn hyn o beth.

Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn gam hanfodol at fagu sgiliau a gwybodaeth artistig; mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol. (Celfyddydau Mynegiannol – Datganiad o'r Hyn Sy'n Bwysig, Y Cwricwlwm i Gymru.)

Peidiwch ddychryn wrth feddwl bod rhaid ichi ddod yn ddawnsiwr / actor / cerddor / dylunydd (neu hyd yn oed dysgu sut i wneud y rhain) er mwyn i'r profiadau cyfoethog hyn gymryd lle; meddyliwch amdanoch eich hun yn hytrach fel hwylusydd creadigol.

EGWYDDORION CANLLAW

Arferion Creadigol y Meddwl – Cyngor Celfyddydau Cymru

CHWILFRYDIG

- Tybio a chwestiynu
- Archwilio ac ymchwilio
- Herio syniadau cyffredin

CYDWEITHREDOL

- Rhannu'r 'cynnyrch'
- Rhoi a derbyn adborth
- Cydweithio'n briodol

LLAWN DYCHYMYG

- Chwarae â phosibiliadau
- Gwneud cysylltiadau
- Defnyddio greddf

ARFERION CREADIGOL Y MEDDWL

DYFALBARHAUS

- Aros gydag anhawster
- Meiddio â bod yn wahanol
- Goddef ansicrwydd

DYSGIBLEDIG

- Datblygu technegau
- Myfyrio'n graff
- Crefftio a gwella

Mae Arferion Creadigol y Meddwl yn rhan o brosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol o eiddo Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n deillio o waith Guy Claxton, Bill Lucas ac Ellen Spencer o'r Centre for Real World Learning ym Mhrifysgol Caer-wynt (2013): 'Progression in Student Creativity in School: First steps towards new forms of formative assessment' OECD Education Working Papers No 86. Paris: OECD Publishing]. Fe'i defnyddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru mewn prosiectau dysgu creadigol gydag ysgolion.

Gall yr offeryn yma fod yn gymorth gwerthfawr i'ch helpu i weld sut a ble mae'ch dysgwyr chi'n weithredu'n greadigol; yr hyn sydd bwysicaf yn aml yw nid sut maen nhw'n ymateb yn gorfforol i dasg creadigol, eithr sut maen nhw'n meddwl, yn cydweithio ac yn cyfleu eu syniadau, a sut maen nhw'n derbyn syniadau pobl eraill. Mae strwythur cynllunio gwersi a ddefnyddiwn ni trwy gydol yr adnodd yma, yn cynnig gwahanol ffyrdd y gall plant ddatblygu arferion creadigol y meddwl. Rydyn ni wedi esbonio hyn yn fanylach ar y tudalen nesaf fel y gallwch chi weld y ffordd orau o fanteisio ar bob arfer yn ei dro yn eich gwersi:

EGWYDDORION CANLLAW

Arferion Creadigol y Meddwl - Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae'r syniadau gweithdy yn yr adnodd hwn yn dilyn strwythurau tebyg gan fod ganddynt yr adrannau canlynol:

cyflwyno

archwilio

creu

rhannu

datblygu

adlewyrchu

Chwilfrydig -

Tasg neu ymarfer gosod y bydd yn rhaid iddynt weithio trwyddo ar eu pennau eu hunain neu mewn grŵp yn yr adrannau CREU ac ARCHWILIO.

Cydweithredol -

Mae'r adrannau RHANNU ac ADLEWYRCHU'n hanfodol wrth hyrwyddo hyn.

Dyfalbarhaus -

Os gosodwch chi her ychwanegol yn eich adran DATBLYGU, fe allwch chi gael amcan o sut mae'n nhw'n ymdopi â'r her honno ac â newid.

Disgybledig -

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno sesiwn, bydd yn ymwneud â sut mae dysgwyr yn gwerthuso yn yr adran ADLEWYRCHU neu pan fyddwch chi'n gweld beth maen nhw wedi'i gofio ac os ydyn nhw'n herio eu hunain pan fyddwch chi'n CYFLWYNO pwnc Epynt yn eich sesiwn nesaf.

Llawn Dychymyg -

Bydd hyn i'w weld amlycaf ac ar ei fwyaf datblygedig yn eich tasg CREU.

Y buddion sy'n deillio o wybod hyn a'i ddefnyddio fel offeryn:

- Dirnad y gall bod yn greadigol edrych yn wahanol i wahanol bobl, a bod gan bawb wahanol gryfderau creadigol.
- Gall gwybod ymhle a sut y mae eich dysgwyr yn datblygu eu creadigrwydd eich helpu i strwythuro eich sesiynau gan wella llif eu creadigrwydd o wythnos i wythnos.

Cyflwyniad i

Prosiect Epynt Project

Yn ystod gaeaf 1939, derbyniodd trigolion Epynt a Bwlch-y-groes newyddion gan y Swyddfa Ryfel a fyddai'n troi eu byd wyneb i waered. Roedd rhaid i bob cartref gael ei wagio erbyn haf 1940, er mwyn i safle hyfforddi milwrol sefyll yn eu lle.

'Winter soon set in, one of the coldest winters in living memory. The weather was cold and everyone's heart was stone cold at the thought of having to move and wondering where they could find another home. They wondered if it was worth doing any hedging, was it worth sowing basic slag, was it worth digging a gutter, was it worth repairing the roof of the barn. Many of the older folk I am sure were wondering if it was worth living any more.'

Ronald Davies - 'Epynt Without People' 1971

DULL Y PROSIECT

Roedd Prosiect Epynt yn ymateb creadigol a luniwyd ar y cyd am effaith Chwalfa Epynt ym 1940. Archwiliodd themâu'r iaith Gymraeg, dadleoli a'i effaith rhwng cenedlaethau trwy broses gynhyrchu ar y cyd â chymunedau Cymraeg eu hiaith, pobl ifanc a dawnswyr proffesiynol i ddatblygu a pherfformio darn dawns a chreu etifeddiaeth ddigidol ar ffurf ffilm, adnoddau addysgu ac archifau.

BETH DDIGWYDDODD?

Fe wnaeth cyfranogwyr o Ysgol Calon Cymru, Campws Llanfair ym Muallt gymryd rhan mewn cyfres o weithdai yn archwilio straeon Epynt, gan weithio ochr yn ochr â dawnswyr, golygydd theatre, cerddorion a dylunwyr.

Ymunodd y rhai â diddordeb â'r tîm dylunio ar gyfer y perfformiad dawns derfynol - gan archwilio dylunio set, syniadau gwisgoedd a chynhyrchu cerddoriaeth

mae enghreifftiau ohonynt i'w gweld yn ein cynlluniau a swersi

Ail elfen gymunedol y prosiect oedd cyfres o 3 digwyddiad cymdeithasol - digwyddiadau a oedd yn agored i'r cyhoedd yn ehangach i gael gwybod am yr hanes hwn a'r prosiect. Bu'r mynychwyr yn rhannu ffotograffau hanesyddol, straeon personol, cerddoriaeth a cherddi.

Ariannwyd y prosiect gan **Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol** ac roedd y partneriaid yn cynnwys **Amgueddfa a Llyfrgell Y Gaer** ac **Ysgol Calon Cymru** gyda chefnogaeth **Menter, The Muse Aberhonddu** a **Chanolfan Dreftadaeth a Chelfyddydau Llanwrtyd a'r Cylch**.

Cwrdd â'r Artistiaid



Bethan Cooper
Artist Dawns Arweiniol
(credyd llun:
Full Mongrel & Co)



Jess Lerner
Artist Dawns
(credyd llun: Johan
Butenschön Skre)



Kim Noble
Artist Dawns



George Hampton Wale
Dylunydd Gwisgoedd
(credyd llun: Polly Thomas)



Naomi Doyle
Dramatwrg



Cêt Haf
Bardd



Toby Hay
Cyfansoddwr a
Gwneuthurwr Ffilmiau



Clara Rust
Gwneuthurwr Ffilmiau a
Fideograffydd
(credyd llun:
Full Mongrel & Co)

Prosiect
Epynt
Project

Impelo

Gwmni ymboeddi gan
Cronfa
Trefnadaeth
Hydysoddi gyda
Heritage
Fund

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Bethan Cooper
Artist Dawns
Arweiniol

(credyd llun: Full Mongrel & Co)



Artist Dawns yw Bethan sydd wedi'i lleoli ym Mhowys. Dechreuodd ddawnsio yn Impelo yn 3 oed, ac aeth ymlaen i hyfforddi yn Trinity Laban Conservatoire of Music and Dance lle bu'n ffodus i weithio gyda chwmnïau fel Matthew Bourne's New Adventures a Studio Wayne McGregor. Mae hi bellach yn perfformio gyda Bale Gŵyl Aberhonddu, yn sioe Sci-ddawns Impelo CELL a Qwerin gan Osian Meilir. Yn ystod ei hyfforddiant, datblygodd ddiddordeb brwd mewn addysgu; cwblhaodd fodiwlau mewn dawns mewn addysg a'r gymuned. Ar ôl dychwelyd i Gymru, treuliodd Bethan amser ar leoliad gyda Rubicon Dance yn cysgodi amrywiaeth o ddsbarthiadau ar draws eu sector dawns mewn addysg ac iechyd ac ers hynny mae wedi cwblhau ei Chymhwyster Dysgu Dawns Lefel 4 gyda BBO Dance. Ers 2018, mae hi wedi bod yn gweithio gydag Impelo ar brosiectau Celfyddydau ac Iechyd a Dysgu Creadigol. Ymchwiliwyd a datblygwyd Prosiect Epynt gan Bethan, a ddaeth yn Artist a Chynhyrchydd Dawns Arweiniol.



Naomi Doyle
Dramatwrg

Ymarferydd theatr lawrydd yw Naomi, yn berfformiwr ac yn hwylusydd. Mae hi wedi gweithio gyda nifer o gwmnïau theatr a dawns ar draws Cymru gan gynnwys Theatr Powys, Impelo, PuppetSoup, DanceBlast, Little-Light a Struts and Frets Theatre. Mae hi hefyd yn cynnal gweithdai a dosbarthiadau yn y gymuned a lleoliadau addysg gan gynnwys nifer o brosiectau ar gyfer Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru. Pan nad yw'n gweithio mae hi wrth ei bodd yn cerdded ar hyd mynyddoedd prydferth Cymru.

Jess Lerner
Artist Dawns
(credyd llun: Johan
Butenschøn Skre)



Mae Jess Lerner yn artist amlddisgyblaethol sy'n gweithio ym myd dawns a chelf weledol. Mae ei dawns yn canolbwyntio ar waith byrfyfyr a symudiad corfforol ac mae'n benodol i safle neu'n ymateb i wrthrychau. Mae hi wedi gwneud gosodiadau a phaentiadau sydd naill ai'n cael eu dangos fel y gwaith neu'n rhan o'r broses. Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar brosesau ac mae'r perfformiadau yn barhad o'r broses. Mae hi wedi cydweithio'n helaeth â choreograffwyr eraill, gwneuthurwyr ffilm ac artistiaid gweledol. Mae hi'n dysgu symudiadau byrfyfyr, mentoriaid mewn perfformio celf weledol gan ddefnyddio symudiad ac yn ddiweddar mae wedi gweithio mewn ysgolion a phrifysgolion. Mae hi'n dod o Lundain ond wedi byw ym Mrynaman, Sir Gaerfyrddin ers 2002.



Kim Noble
Artist Dawns

Hyfforddodd Kim Noble yn Northern School of Contemporary Dance, mae hi'n artist dawns lawrydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Mae Kim yn dawnsio i goreograffwyr a chwmnïau amrywiol yn ogystal â chyd-gyfarwyddo a gwneud gwaith coreograffi i gwmni theatr ddawns Kitsch & Sync Collective. Mae hi'n perfformio ac yn creu gydag Alex Marshal Parsons – gan wneud theatr ddawns, Gwyn Emberton – gwneud dawns gyfoes, Caroline Sabine – gwneud theatr drochi, Sean Tuan John – gwneud gwaith i gynulleidfaoedd ifanc, Spirit of Nimba – cwmni cyfuniad Affricanaidd, theatr ddawns Untold – cwmni sy'n pontio'r cenedlaethau a Matteo Marfaglia- theatr ddawns. Mae Kim hefyd wedi cydweithio â 4Pi; yn coreograffio a pherfformio yn India a Montreal gyda'r prosiect dawns a ffilm 360 gradd 'Liminality'. Wrth wraidd ymarfer Kim mae angerdd dros greu a pherfformio sy'n gyffrous ac yn ysbrydoledig i gynulleidfaoedd o bob cefndir ac oedran sy'n gorgyffwrdd â gwahanol ffurfiau celfyddydol. Am y 7 mlynedd diwethaf, mae Kim hefyd wedi dysgu Cwmni Dawns Ieuenctid Trefynwy, yn ogystal â dysgu i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac i gwmnïau megis Cwmni Dawns Genedlaethol Cymru a Matthew Bourne's New Adventures.

Toby Hay
Cyfansoddwr a
Gwneuthurwr Ffilmiau



Mae Toby yn chwaraewr gitâr ac yn gyfansoddwr. Mae'n cael ei swyno gan y cysylltiad rhwng tirwedd a cherddoriaeth. Mae cerddoriaeth Toby wedi'i hysbrydoli gan dirweddau Mynyddoedd Cambria, lle mae wedi byw ar hyd ei oes. Mae ganddo ddiddordeb yn y cysylltiad rhwng byrfyfyr a chyfansoddi. Mae Toby wedi teithio ledled y DU ac Iwerddon yn perfformio'n unigol, neu'n cydweithio â cherddorion eraill. Ef yw sylfaenydd Cambrian Records, label y mae'n ei rhedeg i ryddhau ei gerddoriaeth ei hun, a cherddoriaeth ychydig o artistiaid dethol.



George Hampton-Wale
Dylunydd Gwisgoedd
(credyd llun: Polly Thomas)

Artist, dylunydd a gwneuthurwr o'r Fenni yw George Hampton-Wale. Mae eu hymarfer nhw yn rhychwantu cerflunwaith, perfformiad a gwisgoedd ac mae ganddynt gefndir mewn symud a dawns sy'n llywio eu gwaith. Mae gwaith George wedi'i lwyfannu gan Gwmni Dawns Genedlaethol Cymru, g39, Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Chelfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru. Mae prosiectau gwisgoedd y gorffennol yn cynnwys cydweithio â choreograffwyr fel Mario Bermudez, Matthew Robinson, Fleur Darkin, James Batchelor a Lea Anderson MBE.

Clara Rust
Gwneuthurwr
Ffilmiau a
Fideograffydd

(credyd llun: Full Mongrel & Co)



Dawnsiwr llawrydd Cymreig yw Clara - ymarferydd symud, yn artist amlddisgyblaethol ac yn athrawes yoga. Mae ei hymarfer creadigol yn llifo lle ceir ysbrydoliaeth - nid un i'w chyfyngu i un arddull neu gyfrwng, mae'n mwynhau archwilio gwahanol lwybrau ar gyfer chwilfrydedd i arwain ei gwaith i wahanol ffurfiau o fynegiant, gan gynnwys celf haniaethol, mandalas cywrain, ffilm, symudiad ac ati. yn angerddol am blethu ffocws ar les drwy gydol ei gwaith ac annog cymunedau ymgorffored, grymus, cysylltiedig. Mae mabwysiadu agwedd gyfannol yn bwysig i'w hethos, o ran creu ac o ran hwyluso manau i bobl archwilio, dysgu a mynegi eu creadigrwydd yn rhydd. Hyfforddodd Clara yn Ysgol Ddawns Gyfoes Llundain, lle enillodd ei gradd BA Anrhydedd. Ar ôl graddio, teithiodd yn rhyngwladol, gan weithio fel fideograffydd i gefnogi elusennau a chymunedau brodorol i arddangos eu gwaith mewn cadwraeth amgylcheddol a phrosiectau permaddiwylliant. Mae Clara wedi bod yn gweithio yn y sector dawns gymunedol ers 5 mlynedd, gyda sefydliadau fel Impelo ar amrywiaeth o brosiectau dawns a symud.



Cêt Haf
Bardd

Yn wreiddiol o Aberystwyth, mae Cêt bellach yn byw yn Nghaerdydd ac yn gweithio fel artist llawrydd. Mae Cêt yn arbenigo mewn dawns a pherfformio ac yn mwynhau plethu ei doniau symud, actio, ysgrifennu a darlunio er mwyn creu gweithiau aml ddisgybliedig. Ers dros deng mlynedd mae hi wedi bod yn gweithio gyda nifer o gwmnïau theatr, dawns a theledu Cymru ac wrth ei bodd yn cyd greu gweithiau gydag artistiaid a chwmnïau ar lwyfannau mawr, bach, digidol ac awyr agored ar draws y wlad.

Syniadau Gweithdy

Ar gyfer pwy maen nhw?

Mae syniadau'r gweithdy hyn wedi'u cynllunio ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd (CC 3 - 5 yn bennaf) ond gellir eu haddasu ar gyfer Camau Cynnydd is ac uwch - gweler tudalen olaf pob syniad gwrs am awgrymiadau ar sut mae addasu a datblygu.

Pam ddyln i ddefnyddio nhw?

Mae gan pob sesiwn awgrym o amser rhedeg, ond a fydddech cystal ag addasu'r amserau hyn i weddu i'ch grŵp. Er enghraifft, gallech gymryd un sesiwn a dewis ei haddysgu dros sawl sesiwn/wythnos.

Sut 'dw i'n defnyddio nhw?

Maent wedi eu cynllunio gyda Chwricwlwm i Gymru a 'Cynefin' mewn golwg ac yn annog dysgu trawsgwricwlaidd, dan arweiniad disgyblion.

Ble 'dw i'n dechrau?

Efallai y byddai'n syniadda cynnal sesiwn ragarweiniol gyda'ch grŵp i gyflwyno stori Epynt ac agor trafodaethau ar feysydd y mae ganddynt ddiddordeb mewn ymchwilio iddynt ymhellach.

AWGRYM DA!

Gallwch ddod o hyd i 'ffeil ffeithiau Epynt' yn ogystal ag adnoddau awgrymedig ar diwedd pob adran gweithdy!

**Yn yr adnodd,
gallwch ddod o
hyd i:**

Gweithdy Dawns

Gweithdy Drama

Gweithdy Dawns a
Digidol

Gweithdai

H
I
R

Gweithdy Gwisgoedd

Gweithdy Cerddoriaeth

Gweithdai

o dan
1.5 awr

Tasg Byrffyr

Tasg Drama a Cherdd

Tasg Cymeriadu

Tasg Dawns a Sgôr
Graffeg

Gweithdai

B
Y
R

Gellir defnyddio'r rhain fel rhan o'r gweithdai hirach, neu eu cadw fel eu gweithdy byrrach eu hunain

PROSIECT EPYNT - GWEITHDY DAWNS

Addaswch y syniadau neu'r cyfarwyddiadau i'w gwneud nhw'n berthnasol i'ch lleoliad chi.

Ar gyfer y sesiwn hon bydd angen:

- [Taflen adnoddau Epynt](#)
- [Cardiau annog dawns](#)
- Seinydd ar gyfer cerddoriaeth



NODAU

- i ddysgu mwy am hanes Epynt
- i rannu gwybodaeth
- creu sgorau symud, gweithio mewn grwpiau

Awgrymiadau Da Bethan

MEWN COCH, mae creawdwr y wers, Bethan Cooper, yn rhannu awgrymiadau a thriciau i annog creadigrwydd yn eich dysgwyr

TASG	DISGRIFIAD	PAM?
CYFLWYNO (10 mun)	<p><u>Beth yw Epynt?</u> Hwyluswch drafodaeth fer ar - beth yw Epynt? Caniatewch i gyfranogwyr rannu'r hyn y maent yn ei wybod. *Gallwch ddefnyddio ffeil ffeithiau Epynt i gael cyflwyniad cyflym i'r hanes* Yn dibynnu ar wybodaeth flaenorol, gallech ddechrau'r sesiwn gyda thasg ymchwil fer (gweler awgrym YMA)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n syniad gwych cyflwyno'r testun o'r cychwyn cyntaf, gosod yr olygfa a chaniatáu cyfleoedd i ddisgyblion rannu'r hyn y maent yn ei wybod yn barod
CYNHESU LAN (10 mun)	<p><u>Rhannu Ffeithiau Cerfluniau Cerddorol</u> Mae disgyblion yn teithio o gwmpas y lle Pan ddaw'r gerddoriaeth i ben, mae'r disgyblion yn trefnu eu hunain mewn grwpiau o rif penodol ac yn creu siâp (galw allan rif gwahanol bob tro) Haen 2: cyn gwneud y siâp, rhannwch 1 peth rydych chi'n ei wybod am Epynt</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ceisiwch archwilio cyflymderau, cyfeiriadau a lefelau teithio e.e. cyflym, araf, ymlaen, yn ôl, uchel, isel • Wrth feddwl am siapiau, gallwch eu cysylltu â themâu/symbolau o'r hanes e.e. mynyddoedd, cartrefi, ffermydd, fflagiau, y wennol, nythod 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymarfer hwn yn paratoui'r ymennydd a'r corff ar gyfer gweithio mewn ffordd gorfforol a chreadigol • Does dim 'anghywir' na 'chywir' yn y dasg hon - dathlwhc unigoliaeth ac ymatebion arloesol!
CASGLU (10 mun)	<p>Mewn cylch, mae disgyblion yn rhannu ffaith am Epynt maen nhw wedi'i dysgu Mae'r dysgwyr yn corfforolio'r ffaith honno trwy greu symudiad / ystum i gyd-fynd E.e. Mae gan yr ardal 2 fynydd - Epynt a Bwlch y Groes - ymgorffori 2 fynydd trwy greu siâp 2 fynydd gyda'ch coesau a'ch breichiau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r dasg hon yn galluogi dysgwyr i rannu gwybodaeth am y pwnc yn gyflym - mae'r cyflymder cyflym hwnnw hefyd yn meithrin meddwl creadigol a datrys problemau • Mae ymgorffori'r ffeithiau hyn yn helpu i'w cadw yn y cof
ARCHWILIO (5 mun)	<p><u>Haniaethu'r symudiad!</u> Mae dysgwyr yn cymryd y symudiad a ddefnyddiwyd ar gyfer y rownd ddiwethaf, ac yn awr yn ceisio gwneud y gwrthwyneb e.e. mae ystum mynydd llydan yn troi'n siâp crensiàn cul, gellir cymryd symudiad braich i ran arall o'r corff</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yma gallwn symud i ffwrdd oddi wrth ein greddfau cyntaf pan ddaw i symud - dod o hyd i lai o ystumiol/naratif ac ymatebion mwy aeddfed

approx
2.5
hours

PROSIECT EPYNT - GWEITHDY DAWNS

Addaswch y syniadau neu'r cyfarwyddiadau i'w gwneud nhw'n berthnasol i'ch lleoliad chi.

TASG	DISGRIFIAD	PAM?
CREU (30 mun)	<p><u>Gwnewch ddilyniant symud mewn grwpiau</u> Mewn grwpiau bach, mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddyfeisio a chorfforol dilyniant o symudiadau gan ddefnyddio'r <u>cardiau ysgogi</u> (deunydd ffynhonnell o 'Epynt Without People')</p> <p>AWGRYM DA! Gall yr ysgogiadau bron ddod yn gyfarwyddiadau ar gyfer eu dawns e.e. Mae 'Calon Bannau Brycheiniog wedi'i rhwygo allan.' yn dod yn symudiad grŵp lle mae dysgwyr yn symud o fod mewn siâp gyda'i gilydd i rannu'n ddarnau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Os yw dysgwyr yn cael trafferth troi brawddegau yn symudiad, distylliwch nhw yn un gair yn unig a chefnogwch nhw i ymgorffori hynny
DATBLYGU (30 mun)	<p><u>Addasu neu Ychwanegu!</u> Unwaith y bydd grwpiau yn gwneud cychwyn da ar yr uchod, ychwanegwch rai dyfeisiau coreograffig Awgrymiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> 'gwnewch 1 symudiad yn llai' e.e. mae naid corff llawn yn dod yn wrthnaid bach iawn mewn un rhan o'r corff 'ailadrodd symudiad' - e.e gwnewch 1 symudiad eto, cymaint o weithiau ag y mae'n nhw'n dymuno! 'ychwanegu saib' - rhwng y symudiadau <p>Defnyddiwch hwn i asesu ble mae'ch dysgwyr a'u herio - os gwelwch rai dysgwyr yn cael trafferth gweithio mewn grŵp, ychwanegwch eiliad lle mae'n rhaid iddyn nhw gysylltu rhannau'r corff... os sylwch chi fod grŵp arall yn gweithio'n bennaf o sefyll, ychwanegwch a 'newid lefel 1 symudiad'</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r adran 'datblygu' yn offeryn gwerthuso i helpu i reoli lefel y dasg ar gyfer eich grwpiau - gallai hyn fod trwy ychwanegu neu addasu... herio'r rhai sydd ei angen a mireinio ar gyfer y rhai sydd angen cymorth
RHANNU (30 mun)	<p><u>Beth allwch chi ei weld mewn dilyniant grŵp arall?</u> Mae dysgwyr yn rhannu eu gwaith gyda grŵp arall. Gadewch eu holl gardiau annog ar y llawr a gall y grŵp gwyllo ddyfalu pa symud sy'n cyfateb i ba gerdyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> Trwy roi tasg i'r gynulleidfa ei chyflawni wrth wyllo, rydych chi'n eu cadw'n brysur Mae rhannu gwaith gydag 1 grŵp yn lle'r dosbarth cyfan yn cymryd peth pwysau i ffwrdd
ADLEWYRCHU (30 mun)	<p><u>Arafu a myfyrio</u> Wrth eistedd mewn cylch, caiff dysgwyr eu harwain trwy ymarfer araf, ymlaciol. E.e. Ewch ati i gymryd eiliad i sylwi sut mae'r corff yn teimlo, sylwch pa gyhyrau sy'n teimlo'n effro, ar ba gyflymder mae'ch calon yn curo? Pa mor gyflym neu araf yw eich anadlu? Treuliwch amser i arafu popeth... gan anadlu allan yn hirach ac ymlacio bob tro y byddwch chi'n anadlu allan. Mae dysgwyr yn rhannu unrhyw gwestiynau sydd ganddyn nhw am Epynt ar ôl y sesiwn (gallai hyn eich helpu i gynllunio eich gwers/tasg ganlynol)</p>	<ul style="list-style-type: none"> Bydd gorffen gydag ymarfer araf, tawel yn rhoi amser i ddysgwyr ddechrau'r broses fyfyrto, yn enwedig os gofynnir cwestiynau agored iddynt heb unrhyw ddisgwyliad i ymateb

PROSIECT EPYNT - GWEITHDY DAWNS

ADDASU'R SYMUDIADAU...

Mae'r gweithdy hwn yn defnyddio ffeithiau a deunydd ffynhonnell i ysbrydoli symudiad. Ar gyfer disgyblion sy'n ei chael hi'n anodd trosi geiriau'n symudiad, gallwch chi addasu'r 'cardiau ysgogi' – gellir eu newid i ddelweddau neu eiriau sengl. Fel arall, ar ôl gwneud ymchwil dosbarth ar hanes Epynt, efallai y gallai eich grŵp wneud eu cardiau ysgogi eu hunain.

Tasg Ymchwil a Awgrymir

Os yw pwnc Epynt yn newydd i'ch dysgwyr, beth am sefydlu tasg ymchwil fer...

Mae'r ddawnsraig Jess Lerner wedi gwneud tasg enghreifftiol i helpu dysgwyr i ddod o hyd i ffyrdd o symud trwy wrando ar eu cyrff. Gellir gwneud hyn fel rhan o'r cynllun gwers ddawns, neu gallai fod yn wers ei hun.

Dewch o hyd iddo [YMA](#)

Chwilio am gyngor i helpu'ch dysgwyr i symud?



GWNEWCH HI'N ANODDACH...

Heriwch eich dysgwyr trwy eu hannog i ddod yn ôl at y dasg 'haniaethu'r symudiad' wrth greu symudiad – allwch chi ddod o hyd i ffordd i adrodd y stori heb feimio neu ei hactio? Beth sy'n digwydd os wnewch chi gymryd eich symudiad gwreiddiol a'i gymryd i mewn i ran arall o'r corff? Beth os gwnewch y gwrthwyneb i'r symudiad hwnnw?

DILYNIANT...

Gallai'r dawnsiau grŵp a grëwyd yn y wers hon fod yn man ddechrau darn mwy. Os oes straeon neu ffeithiau penodol y mae eich grŵp yn ymgysylltu â nhw, beth am gynllunio gwers gyfan ar un? Bydd dysgwyr yn teimlo ymdeimlad o ymreolaeth dros eu gwaith ac yn cael eu grymuso i rannu syniadau yn y dyfodol.

- 1 Gosodwch 'orsafoedd' o amgylch eich ystafell, gyda deunydd archifol gwahanol wedi'i osod ym mhob un e.e. lluniau, erthyglau, cerddi, fideos (mae tua 4 neu 5 yn wych!)
SYNIAD DA: Gallwch ddod o hyd i nifer o adnoddau yn ein [hatodiad](#) - dewiswch rai y credwch y bydd eich dysgwyr yn ymgysylltu â nhw fwyaf!
- 2 Rhannwch eich grŵp yn nifer o grwpiau llai (un ar gyfer pob gorsaf)
- 3 Rhowch ddarn o bapur a beiro i bob grŵp
- 4 Gosodwch amser ydd am 2 funud a gosodwch gylchdro grwpiau mewn gorsafoedd, cylchdroi bob 2 funud
- 5 Anogwch eich dysgwyr i gymryd nodiadau, dwdlo neu dynnu llun unrhyw beth sy'n dod i'w sylw gyntaf wrth edrych ar yr ysgogiad archifol - heb or-feddw!
- 6 Dewisol: rhannwch eich tudalennau llawn dwlds gyda gweddill y grŵp a chynhaliwch drafodaeth fer o'r syniadau a rennir

Archwiliwch Ddawns ymhellach - Tasg Byrfyfyr

Beth yw byrfyfyr?

Mae rhywbeth 'byrfyfyr' yn cael ei wneud yn y fan a'r lle. Defnyddir gwaith byrfyfyr mewn llawer o ffurfiau celf, gan gynnwys cerddoriaeth, drama a ddawns.

Wrth fyrfyfyrio, gall fod yn ddefnyddiol defnyddio 'sgôr', sy'n rhoi rhai paramedrau i chi weithio oddi mewn iddynt.

Yn yr enghraifft hon, mae athro/hwylusydd yn arwain cyfranogwr trwy'r gwaith byrfyfyr trwy ofyn cwestiynau i ysgogi meddyliau ac ymatebion gan symudwyr.

Dysgwch sut i greu symudiad gan ddefnyddio dychymyg eich corff, gan ganiatáu i'r corff arwain yr archwiliad.

"Mae'r ymarfer hwn yn ymwneud llai â sut mae'n edrych a mwy am sut deimlad ydyw.

Yn syndod, mae bob amser yn edrych yn ddiddorol gwyllo rhywun yn dawnsio pan fyddant yn symud yn ddilys, neu'n gwranddo ar yr hyn sy'n eu gyrru i symud.

Rydym yn gwneud yr ymarfer hwn i chi ddod o hyd i ffyrdd newydd a ffyrdd annisgwyl o symud. I chi deimlo'n gyfforddus yn symud a dod o hyd i ffordd hawdd o uniaethu ag eraill wrth ddawnsio.."

Y buddion yw:

- **TEIMLAD O RYDDID**
- **DYSGU BOD YN DDEWR**
- **DYSGU YMDDIRIED EIN BOD NI'N GWYBOD BETH RYDYN NI'N EI WNEUD AR ÔL I NI DDECHRAU PETHAU**
- **DYSGU AMDANOCH CHI'CH HUN A DEWCH O HYD I'CH CRYFDER WRTH WNEUD PENDERFYNIADAU**

Dilynwch dasg byrfyfyr
Jess Lerner



Mae creadigrwydd yn cymryd dewrder'

Henry Mattise

Awgrymiadau miwsig:

Brian Eno - Stars (8 mins)

Jon Hassell, Brian Eno - Chemistry (6.54 mins)

*gadewch i'r gerddoriaeth chwarae, a gall eich helpu i gadw amser .. gallwch ychwanegu mwy o ganeuon os hoffech sesiwn hirach

Mewn **symudiad** a **llonyddrwydd** gallwn ddefnyddio ein canfyddiad **synnwyr**

i ddechrau symudiad. Yna, wrth i ni symud, gall gwytodaeth sy'n dod o'r corff - ei berthynas â gofod, disgyrchiant a golau - arwain at fwy o symudiad. Yna mae hyn yn creu llif o symudiad. Gall fod o symudiad lleiaf bys i deithio ar draws y lle.

Archwiliwch Ddawns ymhellach - Tasg Byrffyr yn parhau...



Sut i ddechrau?

- Gofynnwch i'ch dysgwyr ddechrau naill ai gorwedd i lawr, eistedd neu sefyll gyda'u llygaid ar gau
(gall gwneud y gweithgaredd gyda nhw eu helou i deimlo'n fwyaf cyfforddus)
- **Gofynnwch...** "Ble ydych chi'n teimlo pwysau yn disgyn i'r llawr?"

- **Gofynnwch i'ch dysgwyr sylwi...**

Eu hanadl

sut mae cawell eu hasennau'n ehangu ac yn cyfangu fel balŵn neu acordion

Y golau

gall hyn fod gyda llygaid ar agor neu ar gau

Y gorwel

os gallant weld allan o'r ffenestr

Pa rannau o'u corff sy'n cwrdd â'r aer

anogwch nhw i feddwl sut mae eu croen yn cwrdd y tu mewn i'r corff a'r tu allan

Tymereddau gwahanol

a yw'r rhain yn wahanol mewn gwahanol rannau o'r corff?

...gall y rhai sy'n sefyll neu'n eistedd dewis mynd i'r llawr...
"Pa rannau o'r corff allwch chi deimlo'n cwrdd â'r llawr?"

Ar ôl i chi ddechrau teithio, byddwch yn ymwybodol o eraill yn y lle a chadwch eich pellter wrth symud yn gyflym neu gamu.

- **Ble bynnag maen nhw, gofynnwch iddyn nhw i...**

- geisio cau eu llygaid am eiliad
- ceisio arnofio unrhyw ran o'r corff i'r awyr
- ceisio llithro rhan arall o'r corff i ffwrdd ychydig, yna dod ag ef yn ôl
- ceisio mynd i lawr tuag at y llawr (e.e. penlinio) a dod o hyd i ffyrdd gwahanol o ddod i fyny eto
- ceisio mynd yr holl ffordd i lawr i orwedd, sut deimlad yw symud ar y llawr?

- **Yna gallwch chi ddweud ...**

"Nawr gadewch i chi'ch hun symud neu symud eich pwysau fel bod rhannau eraill o'ch corff mewn cysylltiad â'r llawr..."



"Efallai y gallwch chi sylwi ar ymdeimlad o gyfaint hylif yn y corff gan fod cymaint o'r corff wedi'i wneud o hylif..."



"Wrth i chi symud, dychmygwch eich bod chi'n arllwys mercwri hylif o amgylch y tu mewn i'ch corff..."

"Nawr dechreuwch ganolbwyntio ar yr aer o'ch cwrpas a chaniatáu i'ch corff ddechrau symud o amgylch y lle..."

"Teimlo neu synhwyro sut y gall y corff arnofio i fyny a theimlo ysgafnder."

"Dechreuwch ganiatáu golau i'r llygaid yn raddol."

"Dechrau dod i ffwrdd o'r llawr tuag at eistedd, neu ar bob pedwar ac yna sefyll yn y pen draw... symud weithiau ond hefyd yn caniatáu seibiau a llonyddwch"

"Sylwch ar eraill yn y lle..."

"Dechrau symud trwy'r gofod gan gyfarch eich cyd-ddisgyblion trwy edrych arnyn nhw yn y llygad wrth i chi fynd heibio..."

Awgrym gwaith partner:

- Gofynnwch i'ch dysgwyr ffurfio partneriaid, gan gymryd eu tro i gwylio'i gilydd yn symud
- Gofynnwch i'r partner sydd newydd symud i roi adborth am y profiad
- Gall y partner sy'n ei wyllo ddweud ychydig am yr hyn y gwnaethant sylwi arno
- Cyfnewid

Gallai'r athro arwain y gwaith byrffyr - nodi ffyrdd i archwilio symudiad a beth all gwylio partneriaid gymryd amser yn sylwi arno.. e.e. enwi dwy ran o'r corff a welsant yn symud, defnyddio dau air disgrifio i ddweud ffyrdd o symud fel troelli, cyrraedd, disgyn, neidio, plygu a.y.y.b.

- **Anogwch y dysgwyr i barhau i ganolbwyntio ar y ddelwedd hon wrth iddynt symud, gofynnwch iddynt barhau i symud yn eu hamser eu hunain a dylai'r gerddoriaeth helpu i'w cadw i fynd...**

Nid yw'r ymagwedd gynhwysol hon at symud yn rhy ragnodol - gall dysgwyr ddewis symud **sut** a cymaint ag y mynnant... does dim cywir nac anghywir, dim ond chwarae!


PROSIECT EPYNT GWEITHDY CERDDORIAEATH

SGORAU GRAFFIG

Dyma rai sgorau graffeg a ddewiswyd gan Toby...



Schorn - Nebula



Vitiello - First Vertical



Smith - Luminous Axis



McQueen - Picnic

Daw pob sgôr o:
ClassicFM

TAFLEN ADNODDAU

Beth yw byrffyr?

Mae rhywbeth 'byrffyr' yn cael ei wneud yn y fan a'r lle. Defnyddir gwaith byrffyr mewn llawer o ffurfiau celf, gan gynnwys cerddoriaeth, drama a dawns.

Wrth fyrffyrrio, gall fod yn ddefnyddiol defnyddio 'sgôr', sy'n rhoi rhai paramedrau i chi weithio oddi mewn iddynt.

Yn yr enghraifft hon, mae athro/hwylusydd yn arwain cyfranogwr trwy'r gwaith byrffyr trwy ofyn cwestiynau i ysgogi meddyliau ac ymatebion gan symudwyr.

PROSIECT EPYNT GWEITHDY CERDDORIAETH

Impelo

Ffeil Ffeithiau Epynt

Beth ddigwyddod yn 1940?

Pan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd ym mis Medi 1939, roedd angen i'r swyddfa ryfel ddod o hyd i dir at ddibenion hyfforddi. Ar ôl sawl mis o sibrydion am glirio tir, bu'n rhaid i denantiaid dros 52 o ffermydd adael eu cartrefi, a gadawodd yr olaf ar 30 Mehefin 1940. Roedd llawer yn gobeithio y byddent yn dychwelyd un diwrnod, ond cafodd y rhan fwyaf o'u cartrefi eu gwastatáu a chliriwyd y tir ar gyfer ymarfer targed a phrofi bom.

Ble mae Epynt?

Mae 'Epynt' yn cyfeirio at yr ardal o dir rhwng Llanfair ym Muallt, Llanymddyfri ac Aberhonddu. Nawr un o feysydd hyfforddi milwrol mwyaf Cymru.



Ystyr 'Epynt'

"Ilwybr i geffylau", sy'n deillio o'r 'epos' Celtaidd, sy'n golygu "ceffyl" (fel foal, sy'n golygu "ebol" mewn Cymraeg Modern).

- 219 trigolion
- 54 ffermydd
- 30,000 erwau
- cymuned o siaradwyr Cymraeg

TAFLEN ADNODDAU

Chwilio am lyfrau?

Awgrymiadau Darllen

Epynt without People - Ronald Davies

Mynydd Epynt a'r Troad Allan yn 1940: Mae'n Ddiwedd y Byd Yma - Herbert Hughes

The Eleven Men of Epynt - Roland Matthias

Beth am restr helaeth o adnoddau Epynt?

Dolen i'r atodiad

Awgrymiadau Cerddoriaeth

Difyrwch - Trials of Cato
Jac yr Oil - Gwilym Bowen Rhys

Dwr Budr - Gwerinos

Arenig - Gwilym Bowen Rhys

Breow Kernow - VRi

Curlew - Toby Hay

Oh am Gariad - Cate Le Bon
gall cerddoriaeth offerynnol fod yn ddefnyddiol iawn, gan nad yw'n pennu symudiad nac yn ychwanegu naratif digroeso at symudiad... ond rydym hefyd wedi ychwanegu rhai caneuon Cymraeg rydym yn eu hoffi'n fawr, ar gyfer ymdeimlad o le

Adnoddau Prosiect Epynt:

Gweld

Ddelweddau Archifol Epynt gan Angueddfa Genedlaethol

Cymru YMA

Gweld / Clywed

Cerdd Cêt Haf 'Epynt'
YMA - text
YMA - audio

Clywed

Caneuon Cyfansoddwr Toby Hay YMA

PROSIECT EPYNT - GWEITHDY DAWNS A DIGIDOL

Addaswch y syniadau neu'r cyfarwyddiadau i'w gwneud nhw'n berthnasol i'ch lleoliad chi.

- Ar gyfer y sesiwn hon bydd angen:
- seinydd ar gyfer cerddoriaeth gyda camera/ffôn/taled i ffilmio ag ef
 - y feddalwedd golygu a dyfais o'ch dewis
 - [y daflen adnoddau dawns a digidol](#)

- NODAU:**
- Creu symudiad gan ddefnyddio thema
 - I ffilmio symudiad
 - I olygu'r ffilm mewn ffordd sy'n gweddu ac yn amlygu'r thema

[Awgrymau Da Bethan a Kim](#)
MEWN COCH, mae crewyr y wers, Bethan Cooper a Kim Noble yn rhannu awgrymiadau a thriciau i annog creadigrwydd yn eich dysgwyr

Gall syniadau gweithdy hyn gael eu lledaenu'n hawdd dros sawl sesiwn. Bydd dysgwyr yn elwa o gymryd digon o amser yn y camau cynllunio ar gyfer eu ffilm. Fel arall, gallai ddigwydd dros un diwrnod - gall fod yn her hwyliog gweld faint y gellir ei gyflawni gyda therfyn amser cyflym!

TASG	DISGRIFIAD	PAM?
CYFLWYNO	<p><u>Cyflwyniad i Ddawns a Digidol</u></p> <p>Bwriad y gweithdy yw creu symudiad ar gyfer ffilm, ei ffilmio a'i olygu.. ond ble dylen ni ddechrau? Cyflwynwch y gweithdy trwy wyllo rhai fideos o'r 'daflen adnoddau dawns a digidol'</p> <p><u>Dewis eich 5 darn o ysbrydoliaeth</u></p> <p>Bydd y dysgwyr yn dewis agwedd ar hanes Epynt ac yn dod o hyd i ddelweddau, symbolau, geiriau, straeon neu fideos i'w defnyddio fel ysbrydoliaeth (mae'r daflen adnoddau Epynt yn ffynhonnell dechrau gwych)</p> <p>Mae'r dysgwyr yn dewis 5 delwedd neu eiriau i'w defnyddio yn y dasg nesaf e.e. os ydych chi'n defnyddio'r symbol o wennol ddu bob amser yn dychwelyd i'r nyth - gallai eich 5 darn o ysbrydoliaeth fod: geiriau = cartref, nyth, esgyn, delwedd = haid o adar, fideo = murmuriad o wenoliaid</p> <p>Gall fod yn braf cael cymysgedd o ysgogiadau - bydd rhai disgyblion yn cysylltu'n well â gwahanol fathau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r dasg hon yn helpu dysgwyr i edrych ar dreftadaeth Epynt mewn cyd-destun newydd - sut gallwn ni amlygu hyn mewn ffilm?
CREU GYDA KIM	<p><u>Creu dilyniant o symudiadau gyda thaSg Kim</u></p> <p>Mae dysgwyr yn creu 5 ystum o'u 5 'darn o ysbrydoliaeth'. Mae angen i'r 5 safbwynt hyn gysylltu'n ôl â'r thema a ddewiswyd ac arwain at ei gilydd mewn trefn benodol fel ei fod yn dod yn ymadrodd symudiad.</p> <p>AWGRYM DA - gellir gwneud hyn fel unawd, mewn parau neu driawdau neu grwpiau.</p> <p>Nawr gall dysgwyr chwarae gyda'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • corfforoldeb - e.e. gwneud un ystum yn fawr iawn, ac un arall yn fach iawn / newid un symudiad i naid / newid lefel symudiad i'r llawr • rhythm - e.e. saib am o leiaf 4 cyfrif / ailadrodd symudiad 4 gwaith / gwneud un symudiad mor araf ac un cyflym iawn • trawsnewidiadau - e.e. ychwanegu taith i ran arall o'r ystafell rhwng ystumiau / gwneud i un ystum fynd yn syth i mewn i un arall / dod o hyd i'r llwybr hiraf o un ystum i'r llall • perthnasau - e.e. dod o hyd i foment lle mae'r dawnsywyr ymhell oddi wrth ei gilydd, yna'n agos iawn/ Ychwanegu eiliad o ganon (dawnsywyr yn symud un ar ôl y llall) / ychwanegu eiliad lle mae dawnsywyr yn cysylltu / newid lle mae'r dawnsywyr yn wynebu <p>Dewiswch un neu ddau o bob un o'r pwyntiau bwled hyn i helpu i roi amrywiaeth i'ch dawns.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi profiad i ddysgwyr o gynhyrchu deunydd symud o amrywiaeth o Symbyliadau • Mae hwn hefyd yn gyfle i archwilio gwahanol ddyfeisiadau coreograffig, gan ddatblygu sgiliau coreograffig

PROSIECT EPYNT - GWEITHDY DAWNS A DIGIDOL

Addaswch y syniadau neu'r cyfarwyddiadau i'w gwneud nhw'n berthnasol i'ch lleoliad chi.

TASG	DISGRIFIAD	PAM?
RHANNU	<p><u>Casglu adborth</u></p> <p>Mae'r dysgwyr yn rhannu'r dilyniannau maen nhw wedi'u creu ar gyfer ei gilydd ac yn trafod beth welson nhw. Gall dysgwyr wneud newidiadau/addasiadau yn seiliedig ar adborth eu cyfoedion.</p> <p>Gallwch hwyluso'r drafodaeth trwy ofyn cwestiynau fel</p> <ul style="list-style-type: none"> • Allech chi weld eu thema yn y ddawns? • Beth oedd eich hoff ran neu beth ydych chi am weld mwy ohono? • A oes unrhyw beth y gallech ei awgrymu? 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd gofyn i ddysgwyr roi adborth i helpu dysgwyr i ymgysylltu â chreadigaethau ei gilydd ac aros yn weithgar yn eu myfyrdod
FFILMIO	<p>Mae'r dysgwyr yn ffilmio eu dilyniannau yn eu grwpiau, gan feddwl am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • beth maen nhw'n ei ffilmio - pa rannau o'u dawns? A oes unrhyw bethau ychwanegol y gallent eu ffilmio? • ble maen nhw'n ffilmio - beth fydd y blaendir/cefndir? • sut y byddan nhw'n ei ffilmio - a fyddan nhw'n mynd am un saethiad, neu sawl darn o onglau gwahanol? <p>AWGRYM DA: Defnyddiwch ein 'Taflen Cynllunio Dawns a Digidol' i gynllunio beth, ble a sut i ffilmio. Efallai y byddwch am gymryd saib ar y pwynt hwn yn y gweithdy, er mwyn caniatáu mwy o amser ar gyfer cynllunio cyn ymgymryd â'r dasg ffilmio ar ddiwrnod arall.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd rhoi digon o amser i gynllunio eu ffilm yn gwneud y broses ffilmio a golygu yn llawer mwy effeithlon a hwyliog
GOLYGU (DATBLYGU)	<p>Yn eu grwpiau, mae dysgwyr yn uwchlwytho eu cynnwys i'r feddalwedd golygu o'u dewis, yn barod i'w olygu (gweler y <u>daflen adnoddau</u> Dawns a Digidol am awgrymiadau meddalwedd)</p> <p>AWGRYM DA: Cadwch gopi wrth gefn o holl gynnwys y ffilm, rhag ofn.</p> <p>Edrychwch yn ôl ar fideos 'stalwyni 1' a 'stalwyni 2' sydd wedi'u cysylltu yn y daflen adnoddau</p> <p>- mae'r un gyntaf yn un siot yn bennaf, wedi'i ffilmio o syth ymlaen, a'r llall yn sawl clip byrrach wedi'u rhoi at ei gilydd</p> <p>- Mae'r coreograffi dawns wedi'i gymysgu i fyny yn yr ail fersiwn, ond mae'r arddull golygu hon yn cydfynd ag afreolusrwydd stalwyn ac yn tynnu sylw at y micro - yn yr achos hwn, traed y dawnsyr.</p> <p>AWGRYM DA: Gall dysgwyr ddefnyddio cerddoriaeth Toby Hay o Brosiect Epynt i olygu - gweler y <u>daflen adnoddau Epynt</u> am ddolen i'r ffeiliau hyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r dasg hon yn galluogi dysgwyr i feddwl mewn ffordd drawsgwricwlaidd - gan roi cyd-destun newydd i'w gwaith symud o fewn ffurf gelfyddydol newydd a chyfuno ffilm, dawns a cherddoriaeth.
ADLEWYRCHU	<ul style="list-style-type: none"> • Unwaith y bydd dysgwyr yn hapus gyda'u golygu, treuliwch amser i fyfyrion ar y broses - beth fydden nhw'n ei wneud yn wahanol yn y dyfodol? 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gweithgaredd myfyrion hwn yn gwreiddio'r dysgu ymhellach ac yn cynorthwyo'r athro i gynllunio'r sesiwn nesaf.

ADDASIAD...

Mae'r gweithdy hwn yn gofyn i ddysgwyr greu a ffilmio symudiad gan ddefnyddio Epynt fel thema mewn un gweithdy. I ddysgwyr sydd angen mwy o gefnogaeth ac amser, beth am wneud y gweithdy hwn yn brosiect dosbarth cyfan sy'n rhedeg dros sawl wythnos?

GWNEWCH HI'N ANODDACH...

Heriwch eich dysgwyr trwy eu hannog i feddwl am y 'micro' a'r 'macro'. Wrth ffilmio a golygu dawns, gallwn dynnu sylw at bethau efallai na fyddwn yn eu gweld ar lwyfan mawr. Gofynnwch i'ch dysgwyr ddod o hyd i adegau pan fyddan nhw'n gallu ffilmio'n agos, yn ogystal ag adegau pan fyddan nhw'n gallu closio allan am lun llawnach.

DILYNIANT...

Ar ôl y gweithdy hwn, bydd gennych un neu fwy prosiectau fideo. Beth am uwchlwytho'ch fideos i'n Casgliad Prosiect Epynt ar Gasgliad y Werin Cymru?

Cyhoeddi eich project ar Casgliad y Werin Cymru

Mae croeso cynnes i chi gyhoeddi eich project ar CyW. Gallwch chi gyhoeddi pob ffilm, disgrifiad o'r project ac unrhyw ffotograffau er mwyn greu casgliad amlgyfrwng deniadol. Y cam cyntaf yw creu cyfrif. [Gwylwch ein fideo byr](#) a dilynwch ein [Canllaw](#) syml i ddysgu sut i gofrestru, uwchlwytho a chyhoeddi.

Mae'r sgiliau gaiff eu datblygu wrth greu cyfrif, ac uwchlwytho eitemau i CyW yn cyflawni nifer o ofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol. I weld sut all disgyblion gyhoeddi cynnwys a gwella eu sgiliau digidol, ewch i'n [Blwch Offer i Athrawon](#).

Mae CyW hefyd wedi creu cyfres o Adnoddau Dysgu o'r enw [Canllaw Hwylus i Hawlfraint a Metadata](#). Beth am gymryd y cyfle i esbonio hawlfraint a metadata i'r dosbarth?

Cynradd: Gall y disgyblion gwblhau'r templed metadata sy'n rhan o'r [Adnodd Dysgu Metadata](#) i roi'r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn i'r dosbarth uwchlwytho cynnwys.

Uwchradd: Gall y disgyblion uwchlwytho cynnwys eu hunain. Bydd yr adnoddau uchod yn esbonio sut.



Dilynwch Tasg Cymeriadau Kim [YMA](#) - yna gellir defnyddio'r egwyddorion hyn wrth wneud dawns sy'n archwilio cymeriadau.

Archwiliwch Ddawns a Digidol ymhellach - Tasg Cymeriadu

Sut i ddechrau?


- I weithdy ffyrdd o archwilio cymeriadu trwy symud gallwch ddechrau trwy ofyn i'r dysgwyr i...

sylwi ar eu hosgo a'u cyflymder eu hunain

cerdded o gwmpas yr ystafell fel nhw eu hunain

Sylwi ar eraill yn yr ystafell ac annog cyswllt llygaid.. hyd yn oed dweud helo neu wenu ar eich gilydd

Gofynnwch i'r disgyblion ddechrau arwain eu taith gerdded gyda'u **trwyn** – gofynnwch iddyn nhw lynu eu trwyn o'u blaenau a dychmygu ei bod hi'n hir iawn! Parhewch i symud o gwmpas yr ystafell a sylwch ar beth mae hyn yn ei wneud i weddill y corff - efallai eu bod yn is neu eu cefn wedi crychu, a gofynnwch iddynt sylwi sut mae'n teimlo - efallai ei fod yn teimlo'n slei neu'n amheus. Meddylwch am gyflymder eu cerddediad/gweithredoedd, a yw'r cymeriad trwyn hir hwn yn cerdded yn gyflym neu'n araf?



Yna gofynnwch i'r disgyblion newid y cymeriad trwyn hir hwn i gymeriad sy'n arwain o'r frest. Gofynnwch i'r disgyblion lenwi eu brest ag aer – eto siaradwch am sut mae hyn yn teimlo – efallai balch a statws uchel a beth mae'n ei wneud i'r corff – ydyn nhw'n sefyll yn dal ac yn cerdded yn hyderus? Beth mae eu breichiau yn ei wneud - a allant orliwio'r teimlad hwn.

Awgrym - anogwch y disgyblion i roi enghreifftiau o gymeriadau maen nhw'n teimlo fel bod - gallai fod o gartŵn neu berson enwog mewn ffilm er enghraifft.

Nesaf ceisiwch arwain gyda'r bol, gan ddychmygu bod ganddyn nhw fol enfawr yn ymwthio allan o'u blaenau! Sut mae hyn yn gwneud iddyn nhw gerdded a sut mae'n teimlo? Ar y pwynt hwn gallech chi gyflwyno'r syniad bod y disgyblion yn gallu gwneud rhai synau – dim siarad na geiriau ond synau sy'n pwysleisio'r cymeriadau maen nhw'n dod o hyd iddyn nhw. Gallech roi cynnig ar rannau eraill o'r corff i arwain ohonynt a gweld sut mae'n gwneud i chi deimlo a pha gymeriad y gallai fod – er enghraifft yn arwain gyda, gên, pengliniau, cluniau, boch, copa eich pen.

Unwaith y byddwch wedi archwilio'r rhain gallwch ofyn i'r disgyblion ddewis un o'r rhannau corff/cymeriadau hyn a gwneud yn fyrfyr yn yr ystafell, y tro hwn gyda mwy o bwyslais ar ryngweithio â'i gilydd. Meddylwch am statws gwahanol gymeriadau a sut y gallent ymateb i'w gilydd. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun sy'n arwain o'r frest sy'n sefyll yn dal yn teimlo bod ganddyn nhw fwy o awdurdod neu'n fwy penuchel o gwmpas rhywun sy'n ymddangos yn llai uchel ei statws - fel rhywun sy'n cael ei grychu. Efallai y bydd rhywun sy'n ymddwyn yn amheus yn osgoi rhyngweithio ac am guddio.



Follow Kim's Characterisation task

Awgrym- Gallwch ddefnyddio graddfa o 1-10 i faint maen nhw'n gorliwio'r symudiad hwn. 1 yn gynnil iawn, 10 yn eithafol. Gwelwch pa gymeriadau sy'n dechrau dod i'r amlwg o hyn.

Efallai mai haen arall i hyn fyddai dod o hyd i gerddoriaeth a gweld sut mae'r cymeriad hwnnw y maent yn ei chwarae yn ymateb i hyn, gall bwysleisio rhai agweddau corfforol neu gymeriadau..

Ceisiwch newid i mewn i wahanol gymeriadau a chael hwyl yn chwarae gyda'ch gilydd yn y lle!

PROSIECT EPYNT - GWEITHDY DAWNS A DIGIDOL

TAFLEN ADNODDAU

DOLENNI FIDEO

Dyma rai enghreifftiau o ffilm i'w defnyddio i helpu i sbarduno sgysiau am 'beth', 'ble' a 'sut' i ffilmio...

Stalwyni 1

Stalwyni 2

Cymerwyd y fideos hyn yn ystod Prosiect Epynt a defnyddiwyd hanes march crwydrol Epynt fel ysgogiad creadigol.

Perfformiwyd gan:

Kim Noble a Jiya Patel

Ffilmwyd gan:

Jacquie Blake (Full Mongrel & Co) a Clara Rust

Golygwyd Stalwyni 2 gan

Clara Rust



Beth ddylwn i ei ddefnyddio i olygu?

Bydd y feddalwedd neu'r rhaglen gywir yn dibynnu ar ba ddyfais rydych chi'n ei defnyddio.

Er enghraifft, mae iMovie yn rhad ac am ddim ar ddyfeisiau Apple a byddai'n gweithio'n wych os ydych chi'n ffilmio ar iPad / iPhone.

Canva

- rhad ac am ddim
- collaborative feature ideal for working with others
- available on web browsers
- app also available on iOS and Android

Filmora

- am ddim (ond mae ganddo bryniannau mewn-app)
- gellir ei ddefnyddio ar PC, iOS, Android

VideoProc Vlogger

- rhad ac am ddim
- gellir ei ddefnyddio ar PC, iOS, Android
- nid oes angen mynediad i'r rhyngwyd

iMovie

- rhad ac am ddim
- gellir ei ddefnyddio ar iPad, iPhone a Mac
- nid oes angen mynediad i'r rhyngwyd

CLICIWCH YMA
ar gyfer ein
'Taflen Cynllunio
Dawns a Digidol'

CLICIWCH YMA
ar gyfer
Awgrymiadau Da
ar gyfer ffilmio
dawns gan Clara
Rust

Chwilio am gyngor ffilmio?



PROSIECT EPYNT GWEITHDY DAWNS A DIGIDOL

AWGRYMIADAU DA Clara ar gyfer ffilmio dawn

TAFLEN ADNODDAU

1) Meddylwch am ffilmio eich dawns o lawer o wahanol onglau

Mae ffilmio llawer o wahanol safbwyntiau yn golygu bydd gennych lawer o luniau i chwarae gyda nhw wrth golygu

shots corff llawn Shots o bell i ffwrdd

o'r tu ôl i'ch dawnswyr agosluniau

Meddylwch
am y **micro**
a'r **macro**...

*Yn dibynnu ar deimlad y ffilm, efallai y byddwch chi eisiau gwahanol fathau o shots. Er enghraifft, os hoffech gyfleu llawer o emosiwn, efallai y byddai mwy shots o **wynebau** eich dawnswyr yn ddefnyddiol.*

2) Ceisiwch ddod o hyd i eiliadau lle gallech chi 'ddilyn y symudiad' gyda'r camera

Gallai dilyn symudiad wrth ffilmio edrych fel...

symud
tuag at y
dawnsiwr/wyr

dilyn rhan
benodol o'r
corff

symud i
ffwrdd o'r
dawnsiwr/wyr

am ansawdd llyfnach - ewch yn aaaaaraf a chadwch eich penelinoedd yn agos at eich corff wrth ddal eich camera

NEU

ceisiwch wneud y gwrthwyneb i gael effaith sigledig

3) Chwarae gyda FFRAMWAITH

Allech chi ffilmio'ch dawnswyr trwy wrthrychau eraill?
e.e. byddai defnyddio rholyn toiled gwag yn creu ffrâm gylchol

4) Arbrowfch gyda beth sydd yn y blaendir/cefndir.

Gall canolbwyntio ar ryw beth yn y blaendir greu effaith aneglur yn y cefndir a rhoi ymdeimlad o ddimensiynau lluosog!

5) Gwnewch yn siŵr bod pob un o'ch dyfeisiau'n llawn batri!

Gall fod yn rhwystredig iawn os oes rhaid i chi roi'r gorau i ffilmio oherwydd problemau batri. Meddylwch am ddefnyddio banciau pŵer o bosibl os ydych chi'n gweithio yn yr awyr agored.

6) Gwneud copi wrth gefn!

Manteisiwch ar unrhyw gyfle i wneud copi wrth gefn o'ch gwaith - cymerwch seibiannau i uwchlwytho'ch cynnwys. Pan fydd eich gwaith wedi'i gwblhau, gwnewch gopi wrth gefn ar gerdyn SD neu ddreif caled

Peidiwch â dileu unrhyw beth nes eich bod yn hapus gyda'r prosiect terfynol - efallai y gwelwch fod angen yr un clip hwnnw arnoch wrth olygu!

7) CHWARAE!

Cofiwch, does dim cywir neu anghywir yma... felly byddwch yn greadigol a daliwch ati i archwilio!



PROSIECT EPYNT GWEITHDY DAWNS A DIGIDOL

TAFLEN CYNLLUNIO DAWNS A DIGIDOL

TAFLEN ADNODDAU

TEITL FFILM:

TÎM:

PROPIAU:

SAIN:

LLEOLIAD SAETHU:

PERFFORMWYR:

GWISGOEDD:

MIWSIG:

BWRDD STORI / CYNLLUNIO CLIPIAU

PROSIECT EPYNT GWEITHDY DAWNS A DIGIDOL

Impelo

TAFLEN ADNODDAU

Ffeil Ffeithiau Epynt

Beth ddigwyddod yn 1940?

Pan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd ym mis Medi 1939, roedd angen i'r swyddfa ryfel ddod o hyd i dir at ddibenion hyfforddi. Ar ôl sawl mis o sibrydion am glirio tir, bu'n rhaid i denantiaid dros 52 o ffermydd adael eu cartrefi, a gadawodd yr olaf ar 30 Mehefin 1940. Roedd llawer yn gobeithio y byddent yn dychwelyd un diwrnod, ond cafodd y rhan fwyaf o'u cartrefi eu gwastatáu a chliriwyd y tir ar gyfer ymarfer targed a phrofi bom.

Ble mae Epynt?

Mae 'Epynt' yn cyfeirio at yr ardal o dir rhwng Llanfair ym Muallt, Llanymddyfri ac Aberhonddu. Nawr un o feysydd hyfforddi milwrol mwyaf Cymru.



Ystyr 'Epynt'

"llwybr i geffylau", sy'n deillio o'r 'epos' Celtaidd, sy'n golygu "ceffyl" (fel foal, sy'n golygu "ebol" mewn Cymraeg Modern).

- 219 trigolion
- 54 ffermydd
- 30,000 erwau
- cymuned o siaradwyr Cymraeg

Chwilio am lyfrau?

Awgrymiadau Darllen

Epynt without People - Ronald Davies

Mynydd Epynt a'r Troad Allan yn 1940: Mae'n Ddiwedd y Byd Yma - Herbert Hughes

The Eleven Men of Epynt - Roland Matthias

Beth am restr helaeth o adnoddau Epynt?

Dolen i'r atodiad

Awgrymiadau Cerddoriaeth

Difyrwch - Trials of Cato
Jac yr Oil - Gwilym Bowen Rhys

Dwr Budr - Gwerinos
Arenig - Gwilym Bowen Rhys
Breow Kernow - VRi
Curlew - Toby Hay

Oh am Gariad - Cate Le Bon
gall cerddoriaeth offerynnol fod yn ddefnyddiol iawn, gan nad yw'n pennu symudiad nac yn ychwanegu naratif digroeso at symudiad... ond rydym hefyd wedi ychwanegu rhai caneuon Cymraeg rydym yn eu hoffi'n fawr, ar gyfer ymdeimlad o le

Adnoddau Prosiect Epynt:

Gweld

Ddelweddau Archifol Epynt gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru YMA

Gweld / Clywed

Cerdd Cêt Haf 'Epynt' YMA - text YMA - audio

Clywed

Caneuon Cyfansoddwr Toby Hay YMA

Adnoddau Epynt a Gwybodaeth Ychwanegol

Darllen...

Mynydd Epynt a'r Troad Allan yn 1940: Mae'n Ddiwedd y Byd Yma - Herbert Hughes

Epynt Without People - Ronald Davies

The Eleven Men of Epynt - Roland Matthias

Erthyglau yn gofyn cwestiynau am Epynt fel mudiad gwleidyddol -

<https://undod.cymru/en/2020/06/28/epynt/>

<https://www.nfu-cymru.org.uk/news-and-information/epynt-a-lost-community/>

Gwybodaeth am Epynt ar wefan Cymunedau Gadawedig -

<http://www.abandonedcommunities.co.uk/page45.html>

Tudalen Facebook 'Atgofion Epynt' – safle cymunedol lle gall teuluoedd Epynt bostio atgofion a rhannu adnoddau

<https://www.facebook.com/groups/883563422064123>

Gwyllo...

Cerdd Epynt a ysgrifennwyd ac a berfformiwyd gan Tudur Dylan Jones fel rhan o Eisteddfod 2020

<https://twitter.com/eisteddfod/status/1276538436342689798>

Cyfweliad gyda 'Plant Epynt' (Cymraeg)

<https://www.facebook.com/watch/?v=1392552290930456>

Disgyblion o Ysgol Uwchradd Aberhonddu, Ysgol Calon Cymru ac Ysgol Gyfun Ystalyfera yn ysgrifennu cerdd gyda Mererid Hopwood ac yn gweithio gyda Cerys Hafana ar y gerddoriaeth

<https://www.ysgolcalon.cymru/news/2020/7/13/cofioepynt-epynt80?locale=en>

<https://soundcloud.com/ceryshafana/cof-y-gwynt-ar-fynydd-epynt-geiriau-criw-menter-powys-62020>

Gwranddo...

RADIO BECA - Y Mynydd a Ddiflanwyd - 5 pennod podlediad yn adrodd hanes y clirio

<https://soundcloud.com/user-231251025/y-mynydd-a-ddiflanwyd-pennod-1>

Cofiwch Epynt gyda Euros Lewis gan Desolation Radio - podlediad awr o hyd (Saesneg)

<https://soundcloud.com/desolationradio/79-cofiwch-epynt-with-euros-lewis>

RADIO BECA - Cofio'r Epynt cynhyrchwyd gan Dinah Jones ac Euros Lewis

<https://soundcloud.com/user-231251025/cofiar-epynt>

Celfyddydau Mynegiannol a Dawns mewn Addysg

Adnoddau a Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Gartref@Impelo yn cynnwys dros 60 o fideos ar gyfer pob oedran ac mewn amrywiaeth o arddulliau a sesiynau, am syniadau a mwy, cliciwch isod.

<https://www.impelo.org.uk/impelo-at-home>

Mae'r adnodd hwn gan BBC Bitesize yn cynnig ystod eang o enghreifftiau o ddawns draddodiadol, o ffynonellau dilys, cliciwch isod.

<https://www.bbc.co.uk/programmes/b00q9n6d/clips>

Adnodd cysylltiad natur, sy'n mynd â dysgu yn yr awyr agored, yn ddiogel ac yn greadigol ar gyfer y rhai sy'n dymuno symud yn yr awyr agored, cliciwch isod.

https://hwb.gov.wales/api/storage/da479f07-ff4d-4aa7-80ff-eb1de7a5c23e/Nature%20Connection_A%20resource%20for%20schools%20and%20young%20people.pdf?preview=truet

Canolfan dysgu digidol Cwmni Dawns Genedlaethol Cymru gydag amrywiaeth o adnoddau dawns o becynnau addysg i sesiynau ar-lein, cliciwch isod.

<https://ndcwales.co.uk/digital-hub/learn-together>

Mae adnodd ymagwedd Chwaraeon Powys at Symud Creadigol mewn ysgolion i'w weld yn 'Citbag', cliciwch isod.

<https://citbag.sport.wales/en/>

Mae adnodd dawns fideo IRIS for Kids gan gwmni dawns StopGap yn darparu sesiynau dawns gynhwysol i blant a phobl ifanc, cliciwch isod.

https://youtube.com/playlist?list=PLd_QTqd1_jfvNkUrmEKK_AwWAX96C1_m&si=n3YDj9dGP4ZhtRrb

Mae adnodd RIDE (Cynrychiolaeth mewn Addysg Ddawns) yn adnodd newydd rhad ac am ddim i athrawon a grëwyd gan ein bwrdd crwn Dadgoloneiddio'r Cwricwlwm Dawns.

Nod RIDE yw cefnogi athrawon ac addysgwyr i gyflwyno cynnwys dilys, amrywiol a chynhwysol. Bydd athrawon hefyd yn gallu dod o hyd i artistiaid a chwmnïau Mwyafrif Byd-eang sy'n lleol iddynt i gefnogi cyflwyno dawns yn eu hysgol.

<https://www.onedanceuk.org/media/lvahta4x/ride-2023-update.pdf>

DIOLCHIADAU

Crëwyd yr adnodd hwn gan Impelo, mewn cydweithrediad ag artistiaid ledled Cymru, yn falch ac yn bennaf o Bowys.

Daw The Creative Habits of Mind o waith Guy Claxton, Bill Lucas ac Ellen Spencer o'r Ganolfan Dysgu Byd Go lawn ym Mhrifysgol Winchester (2013) 'Progression in Student Creativity in School: First Steps towards new formive assessment' OECD Education Working Papers No 86. Paris: OECD Publishing] ac fe'i defnyddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer prosiectau dysgu creadigol gydag ysgolion.

Mae'r holl weithgareddau, gemau ac ymarferion a nodir yn yr adnodd hwn wedi dod o'n gwaith ym Mhrosiect Epynt ac allgymorth arall mewn cymunedau ac ysgolion a thrwy ddiwrnodau hyfforddi a DPP.

Mae Impelo yn cydnabod cyfraniad unigol yr artistiaid canlynol yng Nghymru; Bethan Cooper, Naomi Doyle, Cêt Haf, Toby Hay, Jess Lerner, Kim Noble, Clara Rust a George Hampton Wales.

Diolch arbennig i Anwen Francis am ei chymorth gyda chyfieithu.

Graffeg a Dylunio:

Impelo, Bethan Cooper, Jemma Thomas

Adnodd wedi'i guradu gan:

Bethan Cooper

01597 824370
hello@impelo.org.uk
impelo.org.uk

Epynt Archival Images
National Museum Wales
(page 1 of 4)



Pen-gawse, Yscir Fechan valley,
Breconshire - barn and cowshed.



Pen-gawse, Yscir Fechan valley,
Breconshire - barn and cowshed (interior).



Pen-gawse, Yscir Fechan valley, Breconshire -
barn and cowshed (interior).



Pen-gawse, Yscir Fechan valley,
Breconshire - old dwelling house.



Pen-gawse, Yscir Fechan valley, Breconshire.

Epynt Archival Images
National Museum Wales
(page 2 of 4)



Waun-lwyd, Llanddulas, Breconshire -
back of house.



Gwybedog, near Llanddulas, Breconshire.



Tre-lath, Llanddulas, Breconshire.



Waun-lwyd, Llanddulas,
Breconshire - front of house.



Neuadd Lwyd, Yscir Fechan Valley,
Breconshire - detail of outbuildings.

Epynt Archival Images
National Museum Wales
(page 3 of 4)



Llwyn-teg Uchaf, Llanddulas, Breconshire.



Llwyn-teg Uchaf, Llanddulas,
Breconshire - old house.



Llaur-y-dolau, Pentre Dolau Honddu,
Breconshire.



Llwyn-teg Uchaf, Llanddulas,
Breconshire.



Llaur-y-dolau, Pentre Dolau Honddu,
Breconshire.

Epynt Archival Images
National Museum Wales
(page 4 of 4)



Car, Yscir Fechan Valley, Breconshire.



Briwnant, top of Cwm Cilieni, Breconshire.



Car, Yscir Fechan Valley, Breconshire - detail
of outhouses.



Ynys Hir, Cwm Nant Brân, Breconshire.

Epynt gan Cêr Haf

Cawr anial.
She sits quietly,
veiled in atgofion,
her roots a memory
of coed cyll
a brithyll,
gwyddfid and gooseberry,
cyrrents duon,
canu and capel
and wild rose

on rich red soil for those faithfull foals
and their shepherds, of course,
whose love was made of this land,
gweision arglwydd yn eu plwy,
a'r Babell eu hafan.

“Ie ie,
dyna fe,
that's it,
'na chi,
Hen fugail first class”
... dyna fel oedd hi.

Along these folds of fields,
mae ceffyl sy'n rhodio'n rhydd.
Through mists of age
the white horse forever treads,
dyrchafa ei lygaid,
past the birds and their beds,
i weld
yn gorwedd ar y gorwel,
the sugar loaf lining,
sweetening a gust of uninvited guests,

The army.

Yn lleithder y tir gwybedog hwn
bu alltudio,
llythyr,
llwythwyd y gwn.

In a rush,
they unearth Epynt's blush.
Hedges torn by her new keeper.

And then,
only then,
gwawriodd y gwir fel lliain wen.

Codwyd ei chywilydd wrth dywallt ei phridd coch,
a gosodwyd eu baner i chwifio'n gloch.

Cyfieithiad
Saesneg
YMA



... parhau ar y
dudalen nesaf

PROSIECT EPYNT

TAFLEN ADNODDAU

Epynt gan Cêr Haf – yn parhau...

Ymhen celyn,
clec a
churiad cyson cerddediad
y ceidwad arfog
yn drwm
ar ei drumiau barfog.

Shepherds
shepherded in droves,
'till Ty'nmynydd stood,
a skeleton alone.

The silent witness sits quietly,
her rivers streaming down her cheeks,
Ysgir fawr, Honddu,
as familiar soles of feet beat their scattered paths
away from their homes,
eu cartrefi saff,
wedi drysu;

'Do you think I could take my front door with me?'

Take it

Dos a dy ddrws,
carry it,
dros ddyfroedd
yr Honddu,
'cross Epona's fields,
be on your path
hyd lwybrau'r gwynt
ar dy hynt.

Your door is your door,
i'w agor, nid yma rhagor,
ond yn rhywle hyd bedwar gwynt
set it up to stand and sit.

Wait,
for the wind will turn it's tide,
fe gosith y glaswellt o dan dy draed,
o ffroenau'r ebol a saf yn ein cof
ar fryniau moeldir cyfoethog y fro,
the rippling breath from that far away foal,
will blow
open that door and we'll see,
o asgwrn ffram dy ddrws gynt di,
cawr milwrol who's mounted in memory,
that flaming giant,
Epynt of Cymru.

Cyfieithiad
Saesneg
YMA

Epynt by Cêt Haf

Cawr anial (A barren giant).
She sits quietly,
veiled in atgofion (memories),
her roots a memory
of coed cyll (hazel trees)
a brithyll (and trout),
Gwyddfïd (honeysuckle) and gooseberry,
cyrrents duon (blackberries),
canu and capel (singing and chapel)
and wild rose
on rich red soil for those faithful foals
and their shepherds, of course,
whose love was made of this land,
gweision arglwydd yn eu plwy
(servants of the lord in their midst (or parish),
a'r Babell eu hafan (and the Babell their haven).

“Ie ie (“Yes, yes),
dyna fe, (that’s it),
that’s it,
‘na chi (you’ve got it)
Hen fugail first class”
(An old first class shepherd”
... dyna fel oedd hi...
(that’s what it was like...)



Along these folds of fields,
mae ceffyl sy’n rhodio’n rhydd (there’s a horse who roams free).

Through mists of age
The white Horse forever treads,
dyrchafa ei lygaid (he raises his eyes),
past the birds and their beds,
i weld (to see)
yn gorwedd ar y gorwel (lying on the horizon),
the sugar loaf lining,
sweetening a gust of uninvited guests,

The army.

Yn lleithder y tir gwybedog hwn (In the moisture of this fly-full (or muscicapa) land)
bu alltudio, there was exile,
Llythyr (a letter),
llwythwyd y gwn (the gun was loaded).

In a rush,
they unearth Epynt’s blush.
Hedges torn by her new keeper.

And then,
only then,
gwawriodd y gwir fel lliain wen (the truth dawned like a white sheet).

Codwyd ei chywilydd wrth dywallt ei phridd coch,
(She was put to shame by the pouring of her red soil),
a gosodwyd eu baner i chwifio’n gloch.
(and their flag was set to wave proudly (and as a bell).

... continued on
the next page

Epynt by Cêt Haf - continued...

Ymhen celyn (By the end of a pipe (In no time)),
clec a (clack and)
churiad cyson cerddediad (the steady walking beat)
y ceidwad arfog (the armed guardian)
yn drwm (heavy)
ar ei drumiau barfog (on her bearded backs (and hills)).

Shepherds
shepherded in droves,
'till Ty'nmynydd (The Drovers Arms) stood,
a skeleton alone.

The silent witness sits quietly,
her rivers streaming down her cheeks,
Ysgir fawr, Honddu,
as familiar soles of feet beat their scattered paths
away from their homes,
eu cartrefi saff (their safe homes),
wedi drysu (confused (in distress));

'Do you think I could take my front door with me?'

Take it

Dos a dy ddrws (Take your door),
carry it,
dros ddyfroedd (over the waters)
yr (of the) Honddu,
'cross Epona's fields,
be on your path
hyd lwybrau'r gwynt (along the wind's trails)
ar dy hynt. on your way.

Your door is your door,
i'w agor, nid yma rhagor (to open, here no longer),
ond yn rhywle hyd bedwar gwynt
(but somewhere along four winds)
set it up to stand and sit.

Wait,
for the wind will turn it's tide,
fe gosith y glaswellt o dan dy draed,
(it will tickle the grass beneath your feet),
o ffroenau'r ebol a saf yn ein cof (from the nostrils (and muzzle of a gun))
of the foal who stands in our memory
ar fryniau moeldir cyfoethog y fro (on the vale's rich barron hills),
the rippling breath from that far away foal,
will blow
open that door and we'll see,
o asgwrn ffram dy ddrws gynt di (from the skeleton frame of your old door),
cawr milwrol (a militant giant) who's mounted in memory,
that flaming giant,
Epynt of Cymru.